

JENKINS, EVAN (1799 - 1877), clericwr

Enw: Evan Jenkins
Dyddiad geni: 1799
Dyddiad marw: 1877
Rhiant: Anne Jenkins
Rhiant: David Jenkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 12 Ionawr 1799 yn y Waun Fawr ger Aberystwyth, yn fab i David ac Anne Jenkins. Mewn llythyr (11 Medi 1822) at esgob Llandaf, dywed ei fod y pryd hynny bron ar derfyn tair blynedd yn yr 'Usk Divinity School.' Cafodd urddau yn 1822 a 1823, a thrwyddedwyd ef yn gurad Trostre (sir Fynwy), ac yn 1823 yn gurad Monkwood hefyd. Yn 1827, rhoes [ardalydd Bute](#) iddo reithoraeth Dowlais. Ceir ef yn haf 1833 yn rhoi gwersi Cymraeg i'r [arglwyddes Charlotte Guest](#) ar ei dyfodiad i Ddowlais; a gwelir ei enw'n weddol fynych yn nyddlyfrau'r arglwyddes - yr oedd, fel hithau, yn elyn mawr i Fudiad Rhydychen ac yn dwyn mawr sêl dros ysgolion. Piwritan go lym oedd Jenkins, a thramgwyddodd yr arglwyddes dros dro gan wrthwynebu dawns a drefnwyd ganddi; bu hefyd ar hyd ei fywyd yn areithiwr gwresog ar ddirwest. Pan dorrodd helynt y Siarter (1839), daeth allan yn gryf yn erbyn y mudiad hwnnw; pregethodd bregeth (17 Tachwedd 1839) yn ei erbyn, a helaethwyd ganddo'n bamffled, *Chartism Unmasked*, 1840 - pamffled a aeth i 16 arg. beth bynnag, ond a fu'n achos 'a kind of feud' rhyngddo a [John Guest](#), oblegid anghymeradwyai'r meist'r gwaith rai pethau yn y pamffled, a gwrthododd ei rannu ymysg ei weithwyr. Ystrydebol yw'r rhan fwyaf o gynnwys y pamffled, ond y mae manion diddorol ynddo - priodolir anniddigrwydd y werin yn bennaf i Ddeddf newydd y Tlodion, ei chyflwr moesol i'r arfer o dalu'r cyflogau mewn tafarnau, a'i chyflwr crefyddol i annigonolrwydd darpariaeth yr Eglwys Wladol ar gyfer y werin Gymraeg - tystia'r rheithor nad oedd gymaint ag un eglwys yn y Blaeneudir yn cynnal ei moddion yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Wrth gwrs, ymosodwyd yn hallt ar 'offeiriad Dowlais' yn *Udgorn Cymru*, newyddiadur Cymraeg y Siartwyr (gweler dan [John, David](#)); ond enillodd glod mawr ar ôl hynny, yn 1849, am ei ddewrder pan ymwelodd y colera â'r fro - clafychodd ei hunan dano. Yn 1851 cafodd brebend yn eglwys Llandaf, ac ar adeg anhysbys rhoes archesgob Caergaint radd M.A. iddo. Yn 1862, cafodd reithoraeth Llangynyw ym Maldwyn; bu farw yn ystod yr wythnos 21-7 Ionawr 1877; claddwyd yn Llangynyw; gadawodd log o £10 i gymunwyr tlodion y plwyf.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Dogfennau esgobaeth Llandaf yn Ll.G.C. (trwy garedigrwydd Mr. Walter Morgan)

Lady Charlotte Guest: Extracts from her journal, 1833-1852 (1950) (mynegai)

Yr Haul, 1862, 87-8

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874);, i, 483

The Merthyr Telegraph, 2 Chwefror 1877

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733026](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

